CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 21ain TACHWEDD 2023.
NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng D T Roberts (Cadeirydd) Cyng W R Parry (Is-Gadeirydd) J Evans, Ms N Dafydd, Miss B Owen, R G Parry, R R Roberts.

YMDDIHEURIADAU: Cyng G Jones, J E Lewis, R G Parry.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 17eg HYDREF 2023 YN RHAI CYWIR: Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng Miss B Owen.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Cafwyd cyfarfod yn y Fynwent Gymunedol Bodffordd 2ail Tachwedd 2023.
Ar ol i Cyng J E Lewis fynnu cael presenoldeb ar y safle i weld yr Hysbysford (Lle yr oedd yn dweud ei fod yn rhy uchel a`i weld o bob man) a`r mannau claddu.
Gwelodd y Cynghorwyr nad oedd unrhyw broblem gyda`r Hysbysford, pwrpas ydyw ei fod mewn lle i gael ei weld.
Mae y mannau claddu wedi ei gwenud ers blynyddoedd lawer ac mae wedi ei nodi ar y Llyfr Marwolaethau. (Efallai bydd rhaid gwneud newidiadau oherwydd dyfnder)

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. Dim.

PENDERFYNIADAU.

2. HHP/2023/171. Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn:-
   3 Pen Bonc, Llandrygarn.
   Caniatad. Derbyn y canlyniad.

3. FPL/2021/124. Cais llawn ar gyfer dymchwel yr unadau moch presennol, newid defnydd tir i fod yn safle Bythynod Gwyliau, lleoli 25 Bwthyn Gwyliau, addasiadau i fynedfeydd presennol i Gerbydau, adeiladu Ffyrdd Preifat, adeiladu Meysydd Parcio, gosod Cyfleuster Trin Carffosiaeth, tirlunio meddal a chaled. ynghyd a gwaith cysylltiedig ar dir yn:-
   Bodwina, Bellaf, Tynlon.
   Mae y Cynllun wedi ei wrthod. Oherwydd:-
   Man Parcio Arfaethedig, sydd wedi`i leoli agosaf atr yr A5 (Cynllu Llwybr) yn ddigon llydan yn unol a Safonau Priffyrdd yr Awdurdod Lleol ac felly bydd yn peryglu diogelwch y Briffordd. Y Cynllun felly`n groes i bolisi TRA 4 yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon 2017.

R`oedd y Cyngor yn ei wrthwynebu, felly yn derbyn y canlyniad.

4. HHP/2023/177. Cais llawn ar gyfer dymchwel yr adeilad allanol ynghlwm presennol yn ogystal a chodi estyniad un llawr a chreu anecs yn:-
Rhyd Caradog, Llandrygarn.
Caniatad. Derbyn. Y Cyngor yn hapus a`r canlyniad.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

5. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
FForwm Cyswllt CTaCH - Cofnodion a dyddiad Cyfarfod nesaf.
Cofnodion 12ed Medi 2023. Cyfarfod nesaf Nos lau 14eg Rhagfyr am 6.30 a Zoom.
Mae Cyng J E Lewis yn cynrychioli y Cyngor ar y Fforwm. R`oedd y Cyngor yn obeithiol o gael adroddiad gan y Cynghorwr. Ond yn anffodus cafwyd Ymddiheuriad ganddo, nid oedd yn bresennol, efallai bydd gobaith yng nghyfarfod Rhagfyr 2023. (Medi 12ed a Rhagfyr 14eg)

6. Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd. D Sion.
Adolygu Rhanbarthu Pleidleisio a Lleoedd Pledileisio.
Arddangos Rhybyddion 13eg Tachwedd 2023. Tynnu i lawr 12ed Ionawr 2024.
Y Clerc wedi Arddangos y Rhybydd yn Hysbysfordiau Bodffordd a Bodwrog.

7. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
Mwy o ddiwrnoodau agored i rhai dros 50oed wedi eu cynllunio yn dilyn digwyddiad llwyddiannus.
Pickleball, Badminton, Ystafell Ffitrwydd, Dosbarth Ymarfer Corff mewn Grwp, Dysgu Oedolion.
Dyddiadau agored eraill wedi ei cynllunio ar gyfer Canolfan Biwmares (24ain Tachwedd 2023) Canolfan Caergybi (22ain Ionawr 2024) Canolfan Plas Arthur Llangefni (19eg Mawrth 2024)
Mae mwy o wybodaeth ar gael:- 01248 752957 a EbanGeal@ynysmon.llyw.cymru
Y Cyngor yn derbyn ac yn gefnogol.

8. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
Mewn Seremoni yn Birmingham aeth y wobr Rhagoriaeth Maethlu Fawreddog i dim Ynys Mon. Am ei gwaith Cymdeithiasol. Enwebwyd y tim gan Gwynfor a Barbara Jones sy`n Ofalwr Maeth.
Derbyn y wybodaeth. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

9. Swyddog Priffyrdd. Tomos Hughes.
Llinell wen ger groeslon Castell, Tynlon.
Y Clerc wedi cysylltu a`r Cyngor Sir yn cadarnhau a pwyntiog y fan allan i`r Swyddog am y drydydd waith ond does dim yn digwydd. Ail gysylltu eto.

10. Busnes y Cyngor. Siwan Jones.
Gwahardd Traffig Trwodd dros dro, Lon Gwyndy, Llanerchymedd i rym 17eg Tachwedd 2023. (Openreach) Cyfnod na fydd yn fwy na chwe wythnos. Derbyn y wybodaeth.

11. Busnes y Cyngor. Siwan Jones.
Gwahardd Traffig Trwodd dros dro, Lon Llechcynfarwy, Llanerchymedd i rym 27ain Tachwedd 2023. (Openreach) Cyfnod na fydd yn fwy na chwe wythnos. Derbyn y wybodaeth.

12. Busnes y Cyngor. Siwan Jones.
Gwhardd Traffig dros dro, Treban, Trefor i rym 5ed Rhagfyr 2023. (Openreach) Cyfnod na fydd

GOHEBIAETH (ARALL)

13. Diddymu Bodffordd. Cyf. T Victor Hughes Ysgrifennydd Statudol.
    Cadarnhau dderbyn ein ymateb fel Cyngor. Byddant yn cyfarfod eto ym mis Tachwedd 2023.

RHODDION.

14. Pasiwyd rhoi cymorth ariannol o £50.00. i Radio Ysbyty Gwynedd (Roger Richards) Cynnig Cyng W R Parry, eilio Cyng Miss B Owen.

15. Gair o ddiolch am gyfraniad gan y Glorian (Llifon Jones) £100.00. Derbyn.

PLWYFOL.

16. Y Clerc wedi cysylltu a`r Cyngor Sir ynghylch Sied Amaethyddol sydd wedi ei chodi. Edrych a oes angen caniatad Cynllunio. Dim ateb wedi dod eto.

17. Arwydd. Dim yn Addas i Dramwy Trwm ger Refail Newydd, Tynlon angen sylw.

18. Cafwyd Adroddiad gan y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd.
    Mae y Cyngor ddiolchgar iddi am y gwaith rhagorol mae yn ei wneud i`w Chymuned. Bechod fuasai rhai eraill yn gwneud yr un peth.

MATERION ARIANNOL.

19. Cyfrif Rhedegol £14,659.25

20. Mynwent Gymunedol £7,390.00.

TALIADAU:

21. Clerc £450.00. Ysbyty Gwynedd £50.00

    Derbyn y taliadau a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng J Evans.

D Owen (Clerc)